cwmpas

# Cwmpas x Wynne Construction

**Astudiaeth Achos**

Prosiect masnachol gan
Dwf Busnes ac
Ymgynghoriaeth.

# Ein prif ffocws oedd mynd i'r afael â gwerth cymdeithasol a beth mae'n ei olygu i Wynne Construction, gan sefydlu ei sefyllfa gyfredol ac amlinellu ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Adam Cox a Sarah Evans yn gweithio i ddatblygu strategaeth ymgysylltu gynhwysfawr â rhanddeiliaid ar werth cymdeithasol..



**Adam Cox**

Ymgynghorydd Arweiniol: Gwerth Cymdeithasol, Cwmpas

Mae Adam wedi gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, gan gyflwyno prosiectau a rhaglenni gwerth cymdeithasol ers dros 15 mlynedd. Datblygodd y maes arbenigedd hwn ar ôl bod yn gyfrifol am adnewyddu'r agwedd at fudd cymunedol o fewn awdurdod lleol.



**Sarah Evans**

Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth

Sarah yw Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth Cwmpas a bu'n gweithio'n flaenorol fel prif reolwr mewn Llywodraeth Leol ac Uwch-ddarlithydd/Ymchwilydd ym Mhrifysgol Wrecsam.

## Beth yw Gwerth Cymdeithasol

### Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â chreu gwerth y tu hwnt i elw – gwerth sy'n helpu Cymru i ffynnu.

TMae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn rhoi'r uchelgais, a'r rhwymedigaeth gyfreithiol, i ni i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd fel cenedl. Mae gan Gymru bopeth i'w ennill trwy weithredu yn ôl llythyren ac ysbryd y Ddeddf.

Nod Cwmpas yw rhoi gwerth cymdeithasol wrth wraidd pob busnes a sefydliad gyda chymorth sy'n ymarferol ac yn bragmatig i anghenion busnes.



## Ein gwaith gydag Wynne Construction

Sefydlwyd Wynne Construction ym 1934, gan weithredu yn Rhuddlan i ddechrau. Yn ystod ei ddatblygiad cynnar, roedd ei dwf strwythuredig a'i effaith gadarnhaol ar y gymuned a'r economi leol yn hwb i'w lwyddiant gan greu cysylltiadau masnachol cryf ag awdurdodau lleol a chleientiaid fel ei gilydd.

Mae'n darparu gwasanaethau adeiladu a chysylltiedig i sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat mewn amrywiaeth o sectorau marchnad, gyda chleientiaid yn cynnwys cyrff y sector cyhoeddus, awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, prifysgolion, colegau a chleientiaid preifat. Meddai Andy Garner, Cyfarwyddwr Cyd-adeiladu, Wynne Construction::

"Roedden ni'n awyddus i adolygu ein dull gwerth cymdeithasol a sefydlu gweledigaeth gwerth cymdeithasol newydd i Wynne Construction, gyda chyfranogiad llawn y tîm rheolwyr arwain."

Un o'r prif amcanion i Wynne Construction oedd dyfeisio ffordd i gynyddu'r ddealltwriaeth o'i hanes a'i ddiwylliant, a sut mae wedi tyfu fel busnes. Rydym yn deall bod llywio dull sefydliad o ymdrin â gwerth cymdeithasol yn golygu ein bod ni'n helpu i newid a llunio ei ddiwylliant hefyd. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gorfod annog y tîm rheoli cyfan i fabwysiadu'r broses yn llawn.

Wynne Construction – cwmni adeiladu arobryn o Gymru sy'n darparu atebion arloesol o ansawdd uchel ac yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Dechreuodd ein cysylltiad â'r cwmni ym mis Mawrth 2022, pan ddaeth Rheolwr Gwerth Cymdeithasol Wynne Construction, Alison Hourihane, ar draws un o'n podlediadau 'social value in construction' ar LinkedIn a holi am ein gwasanaethau. Meddai Alison Hourihane, Rheolwr Gwerth Cymdeithasol Wynne Construction:

"Fel cwmni sy'n tendro am brosiectau yn gyson, mae'r cyngor a'r arweiniad a roddodd Cwmpas i ni wedi'n helpu ni o ran sut i ymateb i'r ymatebion gwerth cymdeithasol a bodloni gofynion gwerth cymdeithasol a bennir gan Lywodraeth Cymru."

Dywedodd Adam Cox, Prif Ymgynghorydd Gwerth Cymdeithasol Cwmpas:

"Mae'n braf gweithio gyda sefydliad sy'n gweld gwerth cymdeithasol fel rhywbeth sydd ag effaith y tu hwnt i fetrics. Mae'r berthynas barhaus yn ein galluogi ni i ddatblygu syniadau gwerth cymdeithasol creadigol i'w yrru ymlaen er budd ein cymunedau."



## Ein gwaith gydag Wynne Construction parhau

Mae cam cyntaf unrhyw brosiect yn cynnwys tasg baratoi a chanfod ffeithiau lle rydym yn dadansoddi'r dull cyfredol, yn diffinio dyheadau ac yn nodi unrhyw heriau a allai godi.

Yna, aethom ati'n syth i gynnal gweithdy diwrnod llawn ar ymgysylltu â gwerth cymdeithasol.. Yn y sesiwn hon, sefydlwyd sefyllfa, gweledigaeth a dyheadau'r cwmni o ran sut y byddant yn cyflawni gwerth cymdeithasol wrth symud ymlaen. Ychwanegodd Alison Hourihane:

"Mae'r dull a weithredwyd gan Cwmpas wedi'i groesawu ar draws y cwmni ac wedi'i ymgorffori yn ein diwylliant erbyn hyn. Mae gwybodaeth Adam am y diwydiant adeiladu, ynghyd â'r dull trylwyr gan Cwmpas, wedi bod yn hanfodol i'n llwyddiant, gan ein bod ni wedi gallu defnyddio'r cyngor yn uniongyrchol a deall yn llwyr beth sydd angen i ni ei gyflawni."

## Effaith

Dyma rai o ganfyddiadau allweddol y gweithdy rhanddeiliaid a gynhwyswyd yn y cynllun gweithredu::

- Sicrhau ffordd cryno a'r gyfer gwerth cymdeithasol gyda cytunded y tîm rheoli
- Dod â hanes a diwylliant y sefydliad i'r blaen a sut maent yn darparu gwerth cymdeithasol yn ei chymunedau.

Cynhaliwyd archwiliad o werth cymdeithasol hefyd, gan gadarnhau perfformiad ac allbwn gwerth cymdeithasol Wynne Construction yn erbyn set benodol o fetrics deddfwriaeth.

Un agwedd ar hyn oedd mesur yn erbyn saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nododd yr archwiliad beth oedd yn gweithio ar hyn o bryd a beth y gellid ei wella a'i weithredu wrth symud ymlaen.

## Canlyniad

Roedd canlyniadau ein gwaith yn cynnwys cydgynllunio grŵp rhanddeiliaid mewnol yn Wynne Construction. Buom yn helpu i lunio ei strategaeth a'i ddull o ymdrin â gwerth cymdeithasol ac i gydnabod ei bwysigrwydd yn y diwydiant adeiladu.

Mae llwyddiant y prosiect hwn wedi golygu ein bod ni wedi datblygu perthynas waith barhaus â Wynne Construction sydd wedi'i hadeiladu ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth o'i werthoedd a'i ddiwylliant. Mae'r tîm yn Wynne Construction yn deall pwysigrwydd atebolrwydd yn ogystal ag allbynnau ansoddol a meintiol gwerth cymdeithasol.

Roedd sefydlu dull newydd o ymdrin â gwerth cymdeithasol yn bwysig i Wynne Construction gan ei fod wedi sicrhau bod y cwmni'n cael cymaint o effaith gymdeithasol â phosibl i gwsmeriaid a chymunedau, gan ymgorffori egwyddorion sy'n mynd y tu hwnt i rwymedigaethau cytundebol. Dywedodd Andy Garner yn gryno:

> **"Mae'r adnoddau gennym yn awr i sicrhau'r effaith gymdeithasol orau bosibl i'n cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt."**

**Darganfyddwch fwy:**

Ffôn: 0300 111 5050
E-bost: info@cwmpas.coop
Gwefan: cwmpas.coop

Chwiliwch am **Cwmpas**
ar y cyfryngau cymdeithasol